

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) - DYDD MAWRTH, 20 AWST 2024

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWDYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 20 AWST 2024 10:00

Presennol

Y Cyngorydd M Lewis – Cadeirydd

A R Berrow

J E Pratt

Yn Bresennol yn Rhithiol

S J Bletsoe

MJ Kearns

J Llewellyn-Hopkins

Swyddogion:

Kirsty Evans
Mark Galvin
Andrea Lee
Oscar Roberts

Uwch Swyddog Trwyddedu
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Uwch Cyfreithiwr
Business Administrative Apprentice - Democratic Services

49. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Dim
Dyddiad gwneud y penderfyniad	20 Awst 2024

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) - DYDD MAWRTH, 20 AWST 2024

50. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Dim
Dyddiad gwneud y penderfyniad	20 Awst 2024

51. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Derbyn cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu A dyddiedig 12/3/2024 a 30/4/24 fel gwir gofnod manwl gywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	20 Awst 2024

52. Caniatáu Trwydded Cerbyd Hurio Preifat

Y penderfyniad a wnaed	<p>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu adroddiad yn gofyn am i'r Is-bwyllgor gymeradwyo cais i awdurdodi trwyddedau hurio cerbydau preifat sy'n disgyn oddi allan i ganllawiau polisi ynghylch oedran y Pwyllgor Trwyddedu.</p> <p>Amlinellwyd disgrifiad o'r cerbyd sy'n ymwneud â'r cais ym mharagraff 3.1.1 o'r adroddiad a nododd yr Aelodau ei fod wedi ei gofrestru gyntaf ar 29/03/2019.</p> <p>Aeth y Swyddogion a'r Aelodau a oedd yn bresennol yn Siambr y Cyngor yn eu blaenau i archwilio'r cerbyd a oedd ym maes parcio adeilad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Cafodd y cyfarfod ei ohirio dros dro ar gyfer y pwrpas hwn.</p> <p>Ar ôl dychwelyd i'r Siambr ail-agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd a chadarnhaodd yr ymgeisydd mewn ymateb i gwestiwn fod y car wedi bod ganddo ers oddeutu 18 mis bellach a'i fod yn credu bod un perchennog blaenorol.</p> <p>Gofynnodd y cadeirydd i'r ymgeisydd pan nad oedd wedi ystyried gwneud cais i gofrestru'r cerbyd cyn hyn,</p>
------------------------	---

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) - DYDD MAWRTH, 20 AWST 2024

	<p>o ystyried ei fod bellach yn disgyn oddi allan i dermau Canllawiau Polisi Trwyddedu'r Cyngor oherwydd ei oed.</p> <p>Dywedodd Mr Thompson fod hyn oherwydd mai dim ond ers mis Ebrill diwethaf yr oedd wedi cael caniatâd i drwydded gyrru tacsï.</p> <p>Gofynnodd Aelod i'r ymgeisydd a oedd yn ymwybodol o'r ffaith nad oedd cofrestru cerbyd hŷn na 5 oed yn cyd-fynd â'r Canllawiau Polisi Trwyddedu.</p> <p>Atebodd Mr Thompson nad oedd yn ymwybodol o hyn, ond ychwanegodd fod y car mewn cyflwr rhagorol. Ychwanegodd hefyd pe byddai'r cais yn cael ei gymeradwyo, dim ond ar gyfer gwaith hurio preifat yr oed dyn bwriadu defnyddio'r cerbyd.</p> <p>Ymneilltuodd yr Aelodau i wneud penderfyniad am y cais. Dylid nodi na chymerodd yr Aelodau a fynychodd y cyfarfod yn rhithiol unrhyw ran yn ystyried yr adroddiad, gan nad oeddent eisoes wedi archwilio'r cerbyd fel y gwnaeth yr Aelodau oedd bresennol yn y cyfarfod wyneb yn wyneb.</p> <p><u>PENDERFYNWYD:</u></p> <p>Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Drwydded Cerbyd i Mr Lee Thompson ar gyfer y cerbyd rhif cofrestru RF19 NTN, yn dilyn archwilio'r cerbyd, ystyriodd yr Aelodau'r car i fod mewn cyflwr rhagorol ac felly cytunwyd, yn unfrydol, i fynd tu hwnt i'r Polisi y tro hwn gan fod y cerbyd yn syrthio oddi allan i'r Canllawiau Polisi Oed y Pwyllgor trwyddedu o 4 mis yn unig.</p>
Dyddiad gwneud y penderfyniad	20 Awst 2024

53. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Nid oedd unrhyw eitemau brys
Dyddiad gwneud y penderfyniad	20 Awst 2024

54. Gwahardd y Cyhoedd

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u>	Ni ddylid cyhoeddi'r eitemau canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fe'i y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad)(Cymru) 2007. Ar ôl cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	20 Awst 2024	

55. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u>	Derbyn Cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu A ar y dyddiad 12/3/2024 a 30/04/24 fel gwir gofnod manwl gywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	20 Awst 2024	

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch os gwelwch yn dda:

- [Rhan 1](#)
- [Rhan 2](#)
- [Rhan 3](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 10:56